PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 19 | Mai 7, 2026 | 50c.

## Encil gweinidogion yr Annibynwyr

Dyma ail ran hanes encil y gweinidogion yn ninas Lerpwl

### Amgueddfa

Yn dilyn cyflwyniad Adam ac Ella ar gaethwasiaeth aethom yn ddiymdroi i Amgueddfa Walker oedd dros y ffordd ac fe'n tywyswyd i edrych ar gelf oedd yn gysylltiedig â chaethwasiaeth. Roedd yno gerfluniau a pheintiadau gan deuluoedd a wnaeth eu ffortiwn drwy gam-drin yn greulon eu cyd-ddyn. Golyga hyn fod staen du caethwasiaeth yn rhan o orffennol teuluoedd, cwmnïau a sefydliadau ac yn rheswm pam eu bod yn llwyddiannus a chyfoethog. Ac i raddau rydym i gyd yn rhan o'r gorffennol echrydus hwn.



### Gwibdaith



Gari Wyn oedd yn arwain y daith bws o amgylch lleoliadau a mynwentydd oedd â chysylltiadau Cymreig. Bu Lerpwl yn fan cyrchu i ddegau o filoedd o Gymry Cymraeg dros y canrifoedd. Tyrrodd adeiladwyr, seiri, gofaint, gwŷr busnes a phobl gyffredin yno i chwilio am waith a bywyd gwell. Yn sgil hynny adeiladwyd 37 o gapeli ar gyfer y Cymry fu'n llawn gweithgareddau o bob math. Roedd Gari yn amlwg wedi gwirioni ar hanes y Cymry yn Lerpwl ac yn amlwg wedi gwneud llawer o waith ymchwil i unigolion, byd busnes ac arweinyddion Cristnogol fu yno. Roedd ei afiaith yn heintus a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn rhyfeddol. Gwelsom gapeli enwog Chatham Street ac adfeilion trist Princes Road, cartrefi adeiladwyr, 'Welsh streets', mynwentydd Anfield a Toxteth ac yno gwelsom fedd Gwilym Hiraethog ac Eleazar Roberts. Gwefreiddiol oedd canu 'Dyma gariad fel y moroedd', wrth fedd Gwilym Hiraethog o dan arweiniad Sian Meinir. Roedd yn daith i'w chofio.

*parhad ar dudalen 2*

## Gweddi dros Gymru

O Dduw ein Tad, heddiw wrth i'n cenedl bleidleisio i ddewis arweinwyr newydd, deuwn atat mewn gostyngeiddrwydd ac mewn gobaith. Rho i ni, bobl Cymru, y gallu i wrando'n ofalus, i farnu'n ddoeth, ac i geisio'r hyn sy'n gyfiawn a theg ar gyfer holl boblogaeth ein gwlad. Na foed i neb geisio ymelwa yn bersonol ond yn hytrach geisio lles ein pobl yn gyffredinol.

Gweddïwn dros bawb sy'n sefyll yn yr etholiad: boed iddynt weithredu gydag onestrwydd, parch a gwir ymrwymiad i wasanaethu. Bendithia'r rhai a gaiff eu hethol i'r Senedd, a rho iddynt galonnau tosturiol, meddyliau clir, a phenderfyniad i weithio dros gyfiawnder, heddwch a lles pob cymuned.

Tywys y rhai fydd yn arwain, yn llunio deddfau ac yn gwneud penderfyniadau anodd. Rho iddynt y gallu i wrando ar leisiau gwahanol, i bwyso a mesur yn ofalus, ac i weithredu gyda doethineb sy'n fwy na'u gallu hwy eu hunain.

Gweddïwn dros ein cenedl yn gyffredinol: dros y rhai sy'n byw mewn tlodi, tros y bregus a'r anghenus, dros y rhai sy'n teimlo'n ddiwerth, dros y rhai sy'n gweithio'n ddiflino ym meysydd iechyd, addysg, gofal a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd gyda'r rhai sy'n teimlo'n ansicr am eu dyfodol, a rho obaith newydd i'r rhai sy'n teimlo'n flinedig.

O Arglwydd, gwna'n Senedd yn fan llawn cyfiawnder, onestrwydd, gwasanaeth, ac o barch at bob person. Gwna'n cenedl yn gymuned lle mae'r hen a'r ifanc yn cael o'n gorau, lle mae'r estron yn cael croeso a diogelwch.

Yn dy drugaredd, arwain ni, bendithia ni, a thywys ni yn ôl egwyddorion dy Deyrnas. Yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist. Amen.



# Eisteddfod Bryngwenith

Ar gais teulu a phwyllgor Eisteddfod Capel Bryngwenith danfonaf y llun hwn yn y gobaith bydd modd ei roddi yn *Y Tyst*. Am y tro cyntaf yn hanes Eisteddfod Capel Bryngwenith cafwyd cystadleuaeth 'Tlws yr Ifanc' i gystadleuwyr o dan 21 oed. Gofynnwyd un ai am waith creadigol, barddoniaeth, ysgrif neu ddrama. Enillydd y gystadleuaeth oedd Lleucu Haf Thomas, Blaenannerch, merch Aled (Llangunllo) a Sandra (gwallt). Cyffyrddodd hi galon y beirniad Bronwen Morgan trwy sôn am 'Dad-cu Garej' (sef Derfel Thomas, Blaenannerch). Edmygwn ddawn y rhai sy'n creu. Pob dymuniad da i Lleucu i'r dyfodol, yn enwedig wrth iddi gael ei derbyn i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las. Dyma ran agoriadol ei herthygl.

### Dad-cu Garej

Un o fois cefn gwlad Sir Benfro gydag amaethyddiaeth yn byrlymu drwy ei waed yw dad-cu. Ie wir, dyn ei filltir sgwâr yw Dafydd Derfel Thomas. Byddai llawer yn ei adnabod am ei ganu ac eraill fel llawfeddyg y tractorau a'r peiriannau amaethyddol. I mi dyma ddyn sydd wedi dwyn fy nghalon a'm hedmygedd, fy arwr, sef dad-cu garej.

Mae'r atgof cyntaf sydd gennyf o dad-cu yn ddarlun byw yn fy mhen. Dad-cu yn ei gastell yng nghanol y peiriannau a sain rythmig y morthwyl yn gyfeiliant perffaith i'w lais tenor yn canu un o'i gyfansoddiadau am ei hoffus fro.

> Mi a grwydraf bro fy nghalon,  
> Mi a'i caraf heb ei ddigon  
> Ie'r hen sir, yr hen sir a garaf i.

Y mop o wallt brithlwyd fel nyth aderyn yn goron ar ei ben, y wen hudolus yn wincio drwy'r wyneb brwnt ac wrth gwrs yr 'overalls' du ffyddlon – yn llawn arogl diesel ac yn dystiolaeth o'r gwaith llafurus. Bob tro y byddwn yn cyrraedd y garej byddai'r llais cryf mynwesol a'r dwylo croesawgar yn fy nghyfarch ac yn cydio amdanaf. Yn aml byddai'n gadael olion dwylo brwnt ar y dillad gorau, (row arall i dad-cu wrth mam-gu) cyn fy ngwahodd i eistedd ar ben rhyw dractor. Dad-cu, archdderwydd y garej â sbaner yn ei law.



Ganwyd dad-cu yn 1949, y trydydd o bum bachgen, yn y bwthyn bychan gwyngalch ar fferm Penlan Bridell wrth odre'r Frenni Fawr. Wrth edrych ar lun o'r bwthyn bach mae'n anodd i mi gredu sut roedd y teulu cyfan yn medru ffitio mewn i'r adeilad tŷ bach twt yma. 'Pawb fel "tin sardines" yn gorfod rhannu gwely mewn ystafelloedd bach iawn ond eto i gyd pawb yn jacôs eu byd,' dywedai dad-cu.

Mae rhywbeth mor iachus yn gwrando ar dad-cu yn hel straeon am anturiaethau ei fagwraeth ef a'i frodyr. Yn wir gallwn ysgrifennu llyfr. Direidi llwyr – a Duw a ŵyr sut lwyddon nhw i oroesi eu plentyndod direidus! Un yn annog y llall ac yn herio'i gilydd o ran pwy oedd ddewraf i gerdded y to uchel ar ben y tŷ. Yna'r diwrnod roedd fy hen dad-cu yn mynd a Glan i'r ysbyty wedi iddo gael dolur. Dad-cu a'i frodyr yn gwneud sbri ar ben eu brawd drwy ffenest y car ac i goroni'r cyfan gyrrodd y car dros ben troed dad-cu! O ganlyniad gorfu'r ddau frawd fynd i'r ysbyty! Dim rhyfedd roedd eu rhieni weithiau bron yn tynnu'u gwallt o'u gwreiddiau yn ceisio cadw trefn ar eu hanturiaethau. Yn wir, nid oedd angen teledu arnynt i roi adloniant iddynt.

Twts (Lleucu Haf Thomas)


**Carys Ann**

# Encil gweinidogion yr Annibynwyr – parhad

### Darlith

Ar ôl swper aethom i gapel Bethel, Heathfield Road ar gyfer darlith goffa'r Dr Pennar Davies a Dr R. Tudur Jones a draddodwyd eleni gan Dr Geraint Tudur. Testun y ddarlith oedd 'Eglwys Rydd y Cymry.' Cyflwynodd i ni hanes dirdynnol yr ymdrech i ddisgyblu'r Parchg William Owen Jones o ganlyniad i gyhuddiadau yn ei erbyn. Dyma oedd man cychwyn achos byrhoedlog Eglwys Rydd y Cymry. Diolch i Geraint am ei gyflwyniad ysgolheigaidd a gafaelgar.

### Dydd Iau




Dechreuwyd ar weithgareddau'r bore gyda myfyrdod gan Dylan Rhys yn seiliedig ar dri llun o borthladd Lerpwl. Datblygodd ar yr egwyddor fod porthladd yn lle i groesawu ac i ffarwelio.

Cafwyd atodiad i'r ddarlith goffa gan Dr Geraint Tudur yn cyflwyno dirgelwch John Jones, Sefton! Mae'r dirgelwch am y cymeriad brith hwn yn parhau.

Cyflwynodd y Parchg Robert Parry natur ei waith fel gweinidog Cymraeg yn Lloegr a'r heriau arbennig y mae hynny yn ei godi.

I gloi'r gweithgareddau fe gafwyd defosiwn cofiadwy gan Owain Llŷr Evans yn seiliedig ar Revels. Melys iawn a chreadigol.

Diolch bawb am encil adeiladol a rhagorol.

Yr Adran
Gydenwadol

7 Mai 2026
Rhifyn 271

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Paratoi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 10–16 Mai 2026

cymorth cristnogol christian aid

**'Pan fydda i'n deffro, rwy'n meddwl am fy holl bryderon. Weithiau does gen i ddim bwyd,'** meddai Fridah Moraa, sy'n wynebu brwydr ddyddiol i fwydo'i theulu oherwydd tlodi trefol. Hanes mamau fel Fridah sydd dan sylw yn ymgyrch Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

Mae Fridah Moraa yn byw mewn pentref anffurfiol yn Dagoretti yn Nairobi, Kenya. Mae hi'n rhentu caban metel i gartrefu ei hefeilliaid 13 mlwydd oed, Eliud ac Abiud, ei merch, a'i hŵyr pedair oed, Quillan. Does ganddyn nhw ddim dŵr tap yn eu cartref ac maen nhw'n rhannu toiled sylfaenol gyda llawer o deuluoedd eraill. Yn ddiweddar, collodd Fridah ei gŵr mewn damwain drasig ac mae'n ei golli'n fawr. 'Mae wedi gadael bwlch mawr,' meddai.

Mae Dagoretti yn lle prysur a swnllyd, a'i rythm yn cael ei reoli gan gyflymder y preswylwyr sy'n cael eu gorfodi i fyw'n ansicr o ddydd i ddydd. Mae'n anodd cael swydd sicr, ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn ennill llai na doler y dydd, felly brwydr gyson yw prynu bwyd ar gyfer eu plant. Gyda rhent, dŵr, ysgol a meddyginiaethau i dalu amdanynt hefyd, does dim digon o arian ar gael weithiau ar gyfer pryd o fwyd. Yno, mae chwant bwyd yn dwysáu'r straen ddi-baid.




*Fridah â'i hŵyr, Quillan, y tu allan i'w cartref yn Dagoretti*
Llun: David Macharia/Cymorth Cristnogol

Gall bywyd o ddydd i ddydd Fridah fod yn ansicr. Mae hi'n deffro bob bore yn poeni am fwydo'i theulu. 'Ond alla i ddim rhoi'r ffidil yn y to,' meddai Fridah, 'mae angen i fy mhlant fynd i'r ysgol. Mae angen iddyn nhw fwyta.'

Mae Fridah wedi bod yn ceisio datblygu incwm sefydlog drwy werthu llysiau, gan wneud taith ddwy awr i brynu cynnyrch cyfanwerthu chwe diwrnod yr wythnos. Rai dyddiau, nid yw'n gwerthu digon o'r cynnyrch ar ei stondin yn y farchnad. Ar y diwrnodau hyn, mae hi'n mynd heb fwyd, er mwyn i'r plant allu bwyta.

## *Imarisha Kilimo*

Yn ddiweddar, mae Fridah wedi manteisio ar gyfle gan brosiect o'r enw 'Imarisha Kilimo', sef 'cryfhau amaethyddiaeth' mewn Swahili. Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei redeg gan Beacon of Hope, sef partner Cymorth Cristnogol, yn hyfforddi menywod fel Fridah mewn ffermio trefol.




*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

Mae teuluoedd yn dysgu tyfu llysiau mewn mannau bach, gan ddefnyddio gerddi siâp côn, a dull plannu fertigol. Maen nhw'n dysgu casglu dŵr glaw, yn gwneud compost organig, ac yn defnyddio dadhydradwyr er mwyn cadw bwyd yn hirach.

Erbyn hyn, ym mhen pellaf y llwybr concrit, mae Fridah yn trin ei fferm drefol ffrwythlon, sy'n llawn cêl, tomatos a llysiau eraill. Mae ei phlant a'i hŵyr yn bwyta llysiau ffres, ac mae hi'n gwerthu ei chynnyrch yn y farchnad.

I Fridah, mae hyn wedi bod yn drawsnewidiol. 'Rydw i nawr yn gallu cynllunio ... Rydw i'n gallu helpu fy nheulu. Mae ffermio trefol wedi newid fy mywyd.'

Mae Beacon of Hope yn cynnig cyfle i drigolion Dagoretti hyfforddi fel ffermwyr trefol. Gyda sesiynau sgiliau, hadau, offer a lleiniau sy'n arbed lle i dyfu cynnyrch ger eu cartrefi, mae rhieni fel Fridah yn troi'r llanw ar dlodi trefol. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn dysgu sut i reoli plâu, cynhyrchu compost, tyfu hadau, a mynd â'u cynnyrch eu hunain i'r farchnad.

## Gweithredu'n ffyddlon

Mae'r Ysgrythur yn dweud wrthym ni: 'Y mae'r hwn sy'n eich galw yn ffyddlon, ac fe gyflawna ef hyn' (1 Thesaloniaid 5:24). Mae cariad a gofal diderfyn Duw yn cael ei gynnig i ni drwy'r amser. Gelwir arnom i adlewyrchu natur ffyddlon a thosturiol Duw yn ein geiriau a'n gweithredoedd ein hunain.

Wythnos Cymorth Cristnogol yw un o'r enghreifftiau mwyaf o dystiolaethu Cristnogol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Mae'r weithred bwerus hon o dystiolaeth yn ariannu nifer fawr o brosiectau sy'n cefnogi cymunedau ledled y byd i drawsnewid eu bywydau a'u dyfodol eu hunain.

Eleni daw Wythnos Cymorth Cristnogol ddyddiau yn unig ar ôl Etholiad Senedd Cymru ac mae hefyd yn cyd-fynd ag wythnos o weithredu ar draws Prydain: 'A Million Acts of Hope'. Mae'n foment arbennig i ni fel Cristnogion yng Nghymru i rannu gyda'n cymunedau a'n gwleidyddion newydd am y gobaith sydd gennym a'r galwad arnom i weithredu dros gyfiawnder a rhoi terfyn ar dlodi.

Dywed Fridah wrthym: 'Mae'n anodd, ond yn Nuw rydw i'n ymddiried – i gael y nerth i ddal ati bob dydd.'

## Diolch!

Fel tîm Cymorth Cristnogol Cymru, hoffem rannu diolch o galon am bob gweithgaredd, pob gweddi ffyddlon a phob gweithred o obaith.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, mae gan bob un ohonom saith diwrnod i wneud gwahaniaeth. Beth wnewch chi? www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week

- Gallai £50 brynu'r sychwr solar sy'n troi cynnyrch ffres yn gynnyrch hir oes, gwerthfawr.
- Gallai £120 helpu i ariannu'r ciosg symudol sy'n golygu y gall ffermwr trefol fynd â'i nwyddau i'r farchnad yn hawdd.
- Gallai £750 dalu i 20 o ddarpar ffermwyr gael yr hyfforddiant a'r adnoddau i sefydlu lleiniau llysiau sy'n rhoi diwedd ar dlodi eu teuluoedd.



*O'r chwith – Abiud, Fridah, Quillan ac Eliud y tu allan i'w cartref yn Dagoretti, Nairobi.*
Llun: David Macharia/Cymorth Cristnogol

## Gweddi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol

Dduw grasol,
pan fyddwn yn sefyll ar wastadeddau ansicrwydd,
heb lwybr o'n blaenau,
byddwn yn edrych atat ti.

Rydym yn cofio beth rwyt ti wedi'i wneud o'r blaen
ac mae'n cysuro ein calonnau pryderus.
Gan ddangos trugaredd,
fe wnaethost ti ein gwared ni bryd hynny;
yn dy gariad a'th ffyddlondeb,
fe fyddi'n gwneud hynny eto.

Dyro nerth i ni gamu ymlaen mewn gobaith.
Dyro ffydd i ni sy'n ein newid ni,
gobaith sy'n ein bwydo ni,
cariad sy'n ein symud ni.
Yn enw Iesu,
Amen.


*Gan Bob Kikuyu, Cynghorydd Diwinyddiaeth*
*Fyd-eang Cymorth Cristnogol, Nairobi*



*Fridah yn gofalu am ei gardd fach, fertigol, werdd yn Dagoretti*
**Llun:** David Macharia/Cymorth Cristnogol

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 21

## Ymson Abigail

Bûm unwaith yn wraig i Nabal, ond oherwydd ei ynfydrwydd, bu raid imi ddewis sefyll yn y bwlch rhwng chwalfa a gras.

Un diwrnod, daeth gweision Dafydd i ofyn am gymwynas o letygarwch. Roedden nhw'n glên ac yn gwrtais. Maen nhw eisoes wedi dangos parch tuag atom, a nawr roedd eu harweinydd am dderbyn ffafr gennym. Ond chwarddodd Nabal yn drahaus. Nid dyn i sathru arno oedd Dafydd, nac un a ymatebai'n dda i gael ei sarhau. Gwyddwn, y funud honno, y byddai marwolaeth yn curo ar ein drws ryw ddydd ac mai fi fyddai'r un i ateb y galw.

Gwyddwn hefyd am y perygl o dywallt gwaed ac y byddai pobl ddiniwed yn dioddef yn sgil hynny. Allwn i ddim sefyll yn y gornel a gwneud dim ond gwylio. Felly rhoddais fy meddwl ar waith a blaengynllunio. Doedd dim pwrpas oedi 'chwaith. Gwell fyddai gweithredu ar fyrder.

Casglais ynghyd y nwyddau pwrpasol: y pethau fyddai'n cael eu gwerthfawrogi gan ddynion Dafydd – bara, gwin, ffrwythau sych, grawn a chig. Penderfynais mai gwell fyddai peidio gofyn am ganiatâd. Wrth gwrs, roedd hyn yn beryglus, ond 'dyw doethineb ddim yn disgwyl am ymateb gan ffolineb. Ffwlbri fyddai hynny! Felly, paratoais yr asyn, a chychwyn ar fy nhaith.

Wrth imi gyrraedd, gwelais gadernid Dafydd. Ond gwelais wylltineb hefyd yn ei lygaid. Doedd o ddim yn hapus, o bell ffordd! Clywais gleddyfau ei araith danllyd cyn gweld y cleddyf yn ei wregys. Yna, o rywle, daeth byddin o bedwar cant a'u camau hwythau'n atsain dicter. Neidiais oddi ar yr asyn. Syrthiais i'r llawr. Ro'n i wedi dychymygu beth fyddwn yn ei wneud, wedi cyfarwyddo fy hun yn y ddrama hon. A nawr roedd llenni'r llwyfan wedi agor!

Plygais fy mhen nes bod fy nhrwyn yn cyffwrdd llwch y llawr. Siaradais â llais melfedaidd. Roedd pob gair wedi'i ymarfer gen i drosodd a thro, pob anadl yn araf, a phob goslef yn glir. Ro'n i'n benderfynol o ddangos fy noethineb a gwneud hynny'n sicr ond yn gynnes. Ro'n i am iddo ddeall fy mod i'n deall beth yw gras a thrugaredd a chyfiawnder.

"Rho'r bai arnaf fi," meddwn. Yn fy meddwl, gwyddwn nad arnaf fi oedd y bai wrth gwrs, ond weithiau mae un person yn gorfod cario'r baich. Atgoffais ef mai arweinydd a ddewiswyd gan Dduw ydoedd, un oedd wedi'i ethol i fod yn frenin. Doedd dim pwrpas mewn tywallt gwaed yn ddianghenraid. Gwaed felly sy'n creu staen anodd ei lanhau. Gwell fyddai gadael i Dduw ddelio â'r cyfan, cyflwyno'r sefyllfa i'r Un sy'n rhagdybio popeth.

Dyna a ddywedais. Yn araf, fe'i teimlwn yn newid; roedd yn gwrando. Codais fy nhrem a meiddio edrych i fyny arno. Cyfarfu ein llygaid. Crëwyd dolen rhyngom. Roedd yn amlwg yn falch fy mod wedi gweithredu, wedi ei atal rhag gwneud cam gwag, wedi gwisgo clogyn eiriolaeth. Diolch byth!

Dychwelais adref i gyflafan o feddwdod. Gadewais Nabal tan y bore. Esboniais. Cafodd drawiad.

Cofiodd Dafydd amdanaf. Cofiwch chithau mai dewrder tawel sy'n ennill y dydd, bod gweld yr hyn mae eraill yn gwrthod sylwi arno a chamu i'r goleuni pan fo eraill yn dal 'nôl yn hanfodol. Dysgwn beth yw gwir ddoethineb: pryd i wneud a gwybod pryd i ddweud 'Na. Dyna ddigon. Dim mwy.' Cofiwch, cofia.

### Holi

- Dengys Abigail wyleidd-dra a hyfedredd. A yw hyn yn anodd weithiau, yn enwedig wrth wynebu anghyfiawnder neu wrthdaro? Beth allwn ni ei ddysgu am gamau gweithredol mewn sefyllfa anodd?
- Cymryd cyfrifoldeb am sefyllfa nad oedd ganddi ran ynddi, na bai amdani, wnaeth Abigail. Oes amodau neu sefyllfaoedd lle mae hyn yn bwrpasol a rhesymegol?
- Apeliodd Abigail at falchder a chred Dafydd yn ei alwad. Sut allwn ni annog eraill i gynyddu, tyfu a gwireddu eu haddewid neu eu potensial, yn hytrach nag ymateb iddynt fel ag y maent nawr?
- Oes yna ddolen rhwng stori Abigail a Dafydd â'r ddysgeidiaeth yn Rhufeiniaid 12:17–19?
- Sut mae rôl Abigail yn rhagfynegi themâu beiblaidd y Testament Newydd, yn enwedig mewn perthynas ag Iesu Grist fel yr Eiriolwr mwyaf un?

### Gweddi

Bendithia ni â doethineb, fel y byddwn yn gwybod sut mae ymddwyn mewn sefyllfaoedd llawn tyndra a thensiwn. Dyro, inni ddewrder gostyngedig. Dysg ni i fod yn offerynnau dy dangnefedd. Llunia ein bywydau i adlewyrchu gwirionedd a gras. Cadw ein calonnau rhag balchder fel y byddwn yn dy anrhydeddu Di ac yn mynegi dy drugaredd. Bendithia ni, dyro inni, dysg ni, llunia ni, cadw ni oll yn dy gariad, 'fel bo i eraill, trwom ni, / adnabod cariad Duw'. Amen.

*Sian Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 10 Mai 2026**

**Radio Cymru**
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 10 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Megan Williams, Porthaethwy

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 10 Mai am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad staff a chefnogwyr Cymorth Cristnogol

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 10 Mai, am 7:30yh –**
Cymorth Cristnogol
Bydd Lowri Morgan yn cwrdd ag Mari McNeill i nodi Wythnos Cymorth Cristnogol

# WRTH Y LLYW #15



Cafwyd Encil Arweinwyr a Gweinidogion yn Lerpwl (Ebrill 21–23). Encil da, dedwydd ydoedd; buddiol a bendithiol, ac anodd amser cinio dydd Iau oedd peidio mwmial canu ‘Ffarwél i ddociau Lerpwl, ffarwél i’m ffrindiau hael ...’ Diolch i bawb a fu ynglŷn â’r trefnu a’r trefniadau, ac yn bennaf oll felly, ein Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu: Carwyn Siddall.

Bore Mercher, wedi defosiwn buddiol gan Gwyndaf Richards, cafwyd cyflwyniad gan Dylan Rhys i Brosiect Onesimus CWM. Rhannwyd cyflwyniad fideo: y Parchg Ddr Roderick Hewitt yn trafod prif ffrydiau’r prosiect, sef 1) Etifeddiaeth Caethwasiaeth; 2) Caethwasiaeth Fodern; 3) Addysg ac addysgu; ac yn olaf, 4) Eciwmeniaeth Drawsnewidiol. Gellid/dylid gwylio’r fidio ar wefan CWM. Fe’m trawyd gan bwyslais y prosiect ar weithredoedd pendant o ymddiheuro ac edifeirwch er mwyn gwneud yn iawn am y dioddefaint a fu. Mae Prosiect Onesimus CWM yn cyfeirio’n bendant a bwriadol at **iawndaliadau**.

Ar hyd a lled Gogledd America ac Ewrop mae yna gwestiwn pigog yn cosi: beth ddylai’r sefydliadau rheini, a fu gynt yn berchen ar drefedigaethau a chaethweision (neu a sefydlwyd/cynhaliwyd gan gyfoeth perchnogion caethweision a threfedigaethau) wneud i fynd i’r afael â drwg y gorffennol; drwg sydd â’i oblygiadau a’i ganlyniadau yn rhan annatod o drafferthion ein heddiw? Mae llywodraethau Ewrop a Gogledd America yn osgoi’r alwad am iawndaliadau. Cymerir camau i fynd i’r afael â hiliaeth ac anghyfartaledd cymdeithasol heddiw, ond ni chrëir cysylltiad rhwng y trafferthion rheini a sgil effeithiau caethwasiaeth ac ymerodraeth.

Ond, mae gobaith y bydd symud yn arwain at symud pellach. Mae cwmni Greene King berchen ar 2,500 o dafarndai, bwytai a gwestai ym Mhrydain. Sefydlwyd Greene King gan Benjamin Greene yn 1799. Roedd berchen nifer o drefedigaethau yn India’r Gorllewin ac yn gefnogol iawn o gaethfasnach. Yn yr 1830au, yn sgil y *Slavery Abolition Act,* derbyniodd iawndal sylweddol gan lywodraeth Prydain am yr eiddo a gollwyd ganddo: 225 o gaethweision.

Yn haf 2020, perchnogwyd yn gyhoeddus y realiti hanesyddol hwn gan Greene King. Crëwyd dolen o bartneriaeth â’r International Slavery Museum yn Lerpwl (cafwyd cyflwyniad gwych iawn am ddyfodol yr amgueddfa hon yn ddiweddarach bore Mercher gan ddau aelod o staff: Adam ac Ella), a bu addewid i gyflogi mwy o bobl o’r cymunedau ethnig, ac i ddatblygu strategaeth busnes mwy amrywiol a chynhwysol. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, ar yr union un dyddiad, cyhoeddwyd ymddiheuriad gan Lloyds of London am eu cyfraniad hwythau i gaethfasnach y gorffennol. Bu eto ymrwymiad pendant i gofleidio amrywiaeth yn y presennol, ac i gynnal archwiliad a chofnodi gofalus o rôl y cwmni yn y fasnach o brynu, gwerthu a symud pobl.

Yn y naill enghraifft a’r llall, ni fu cyfeiriad o gwbl at iawndaliadau. Defnyddiwyd yr un ieithwedd gan y ddau gwmni: amrywiaeth diwylliannol, cynhwysol. Gwelwyd yr un fath o ymateb a’r un ieithwedd gan yr Royal Bank of Scotland, The Bank of England, Barclays Bank a’r National Trust. Nid oes, ac i bob ymddangosiad ni fydd cydnabod y cysylltiad sydd rhwng y gorffennol a realiti’r presennol. Mae cydnabod y cysylltiad hwn yn holl bwysig, oherwydd hebddo, ni ellir deall gwir hyd a lled holl oblygiadau caethfasnach.




Gwelir gwell ymateb gan y Rowntree Society. Yn wahanol i’r enghreifftiau eraill a nodwyd, mae’r Rowntree Society yn cydnabod fod gorffennol y teulu yn parhau i greu niwed yn y presennol. Gwelwyd yr un pwyslais yn ymateb prifysgolion Glasgow, Caergrawnt ac i raddau llai, y Drindod, Dulyn. I grynhoi’r enghreifftiau i gyd: nid da lle ellir gwell. Nid yw edifarhau gyfystyr ag ymddiheuriad.

Ni all yr un genedl ddirprwyo’r iawndaliadau i sefydliadau unigol. Pasiwyd cyfraith o blaid caethfasnach gan y Llywodraeth Brydeinig. Mae cyfoeth Prydain, yn tarddu o gaethfasnach ac ymerodraeth. O fyw yn yr ynysoedd hyn, rhaid derbyn ein bod yn gynnyrch caethfasnach a’i erchylltra. Heb fynd i’r afael â chanlyniadau/goblygiadau caethfasnach, ni ddown byth yn rhydd o’i gysgod.

Nid yw’r galw am iawndaliadau yn mynd i dewi, ac nid tewi bydd y gwrthwynebiad gan y rheini sydd yn ymelwa o’r *status quo*. Daw rheidrwydd i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i ddewis ochr. Dim ond wrth fynd i’r afael â’r gorffennol y gellid ailddychmygu ein dyfodol. Mae iawndaliadau yn rhan annatod o’r broses honno.

**‘Ad-dalaf ichwi am y blynyddoedd a ddifaodd y locust ar ei dyfiant ...’** meddai Duw trwy’r proffwyd Joel (2:23–26). Os ydym yn hoffi cydnabod y peth ai peidio, epil locust caethfasnach ydym, ac arnom mae’r gofyn i ad-dalu i blant y rheini sydd hyd heddiw yn dioddef o’i herwydd, yr hyn oll a ddifaodd y locust.

**Owain Llŷr Evans**

# Golygyddol

## Cymorth Cristnogol

Pan gynhaliwyd cyfarfod i ddathlu pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn bedwar ugain oed (80) yn y Tabernacl, Caerdydd llynedd dywedodd yr Archesgob Rowan Williams ei bod yn 'biti ein bod yn dathlu'r pen-blwydd.' Ar un wedd roedd yn osodiad braidd yn ysgubol oherwydd y gwaith y mae Cymorth Cristnogol wedi'i wneud er 1945. Ond wedi sylwi'n fanylach ar y gosodiad, mae'n dweud y gwir oherwydd nad yw newyn yn peidio â bod, – os edrychwn ni ar eiriau Iesu Grist ym mhennod 24 o Efengyl Mathew, er enghraifft: 'Oblegid cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas, a bydd adegau o newyn…' (adn. 7) Yn nes ymlaen yn yr un bennod mae Iesu'n cyfeirio at 'ddrygioni yn amlhau', a dyna'r gwir amdani yn y byd syrthiedig hwn oherwydd bod gafael pechod mor dynn amdanom.

### Yr angen am Gymorth Cristnogol

Oherwydd hyn i gyd y mae angen am fudiadau fel Cymorth Cristnogol, nid yn gymaint oherwydd ei fod yn dileu tlodi ac anghyfiawnder, ond am ei fod yn lleihau'r tlodi hwnnw. Mor braf fyddai medru'i ddileu wrth gwrs, ond 'tra bydd dynion yn chwarae'i trics' meddai Abiah Roderick, mae galw arnom i weddïo a gweithredu i leihau'r tlodi, gyda'r nod o'i ddileu.

### Ymlyniad i Gymorth Cristnogol

Rwy'n weinidog ers 39 o flynyddoedd, ac o fewn y cwmpawd hwnnw rwyf wedi gweld sawl mudiad Cristnogol yn codi ac yn disgyn. Ond dydw i ddim wedi gweld unrhyw fudiad Cristnogol sy'n clymu Cristnogion efo'i gilydd gymaint â'r mudiad yma. Yn nechrau ngweinidogaeth yn ardal wledig Rhyd-y-main, Brithdir, Ganllwyd a Llanfachreth roedd Cymorth Cristnogol yn tanio brwdfrydedd; ym Mhen-y-groes, Arfon, roedd, ac y mae, Wythnos Cymorth Cristnogol yn ddigwyddiad, ac ym Mhorthmadog a Chricieth yr un fath, ac rwy'n siŵr ei fod yn llwyddo i wneud hynny mewn sawl ardal arall. Mae Cymorth Cristnogol yn tanio awydd i addoli a gweithredu ar y cyd.

### Beth amdani yn 2026?

Dyddiad Wythnos Cymorth Cristnogol yn 2026 ydi 10–16 Mai, ac fe ganolbwyntir eleni ar brofiadau Fridah Moraa a Belinda Kasudi, ffermwyr trefol sy'n byw yn Dargoretti, Nairobi yn Kenya. Ffermwyr 'trefol' ydi'r rhain sy'n byw mewn tlodi difrifol ond sy'n ddiolchgar i Dduw am bob cymorth a gânt drwy weddïau a gweithredoedd eraill ynghyd â phrosiectau sy'n cael eu paratoi drwy gyfrwng Cymorth Cristnogol.

Felly awn ati i wneud ein rhan eto eleni fel Cristnogion oherwydd fedrwn ni ddim eistedd yn ôl a pheidio gwneud dim – dydi hynny ddim yn opsiwn.

Holl angen dyn, tydi a'i gŵyr,
D'Efengyl a'i diwalla'n llwyr;
Nid digon popeth hebot ti,
Bara ein bywyd, cynnal ni.
(Tudor Davies)

**Iwan Llewelyn Jones**



Fridah yn dyfrio ei gardd


Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Cyfres o chwe sesiwn yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd yr eglwys.**

Cyfarfodydd ar nos Fawrth am 7:00

| | |
|---|---|
| 05/05 | Gweinyddu Eglwys<br>Ifan Alun Puw |
| 12/05 | Cynnal Cyfarfod Eglwys<br>Parchg Ddr Alun Tudur |
| 19/05 | Beth yw Diacon?<br>Parchg Beti-Wyn James |
| 02/06 | Cynllunio'n Cenhadaeth<br>Gwilym Jeffs |
| 09/06 | Gweinyddu'r Sacramentau<br>Parchg Carwyn Siddall |
| 16/06 | Timoedd yn arwain yr eglwys<br>Dan arweiniad aelodau Peniel a Bwlchycorn |

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall,
carwyn@annibynwyr.cymru

LLEOLIADAU'R HYBIAU
- Emaus, Bangor, LL57 1NS
- Siloh, Chwilog, LL53 6SH
- Bethel, Melin y Coed, LL26 0SL
- Canolfan Henblas, Y Bala, LL23 7AE
- Neuadd Dinas Mawddwy, SY20 9JD
- Moriah, Llanfair Caereinion, SY21 0DN
- Y Neuadd, Maenclochog, SA66 7JY
- Gellimanwydd, Rhydaman, SA18 2NA
- Bethlehem Newydd, Pwll-Trap, SA33 4AN
- Capel y Nant, Clydach, SA6 5HB
- Tabernacl, Porthcawl, CF36 3DW
- Capel Minny Street, Caerdydd, CF24 4ER

Ym mha hwb fyddwch chi?

Croeso cynnes i bawb!






PROSIECT DENMAN 2026

Ein hysgol Sul: **'Newid ein byd er gwell'**

Ewch ati i greu podlediad / hysbyseb / fideo (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema 'Newid ein byd er gwell'

Erbyn dydd Iau
4 Mehefin 2026

E-bostiwch:
rhodri@annibynwyr.cymru

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ

MANYLION:

01792 795888
annibynwyr.cymru






*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Llanw'n dod i oed yn 2026

Fe ddaeth gŵyl Llanw yn un o uchafbwyntiau'r calendr Cristnogol Cymraeg, gyda llawer ohonom yn ei throi hi at waelod bae Ceredigion yn ôl yr arfer ar ôl y Pasg. Calondid eto i bawb a ddaeth oedd cael ymuno yn yr ŵyl yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, o ddydd Llun i ddydd Gwener, 6–10 Ebrill.

I'r rhai ohonom sydd wedi bod ynglŷn â'r ŵyl o'i dechrau, mae'n wych meddwl ei bod wedi tyfu cymaint, ei bod yn dal i fynd, a bod cymaint o bobl, yn deuluoedd a phlant a phobl ifanc, wedi eu bendithio ynddi o'r dechrau yn 2008. Cyn hynny, i ŵyl fawr Gristnogol Spring Harvest yn Minehead neu Skegness y byddem yn mynd fel teuluoedd, ond fe ddaeth y weledigaeth i gynnal gŵyl Gymraeg ein hunain.

Bu Meirion Morris a'i wraig, Sarah, ynghlwm â dechrau'r ŵyl ddeunaw mlynedd yn ôl ac â'i threfnu oddi ar hynny. Talwyd teyrnged i'r ddau ohonyn nhw yn ystod yr ŵyl, pan drosglwyddodd Meirion gadeiryddiaeth y pwyllgor trefnu gweithgar i Sian Wyn Rees. Ymatebodd Sarah â'r geiriau: 'Mae wedi bod yn gymaint o fraint cael bod ynglŷn â threfniadau Llanw dros y blynyddoedd a diolchwn i'r Arglwydd am yr holl fendithion sydd wedi dod inni i gyd trwyddi.'

Thema'r prif anerchiadau oedd geiriau Iesu i Ioan ar ynys Patmos: 'Paid ag ofni; myfi yw'r cyntaf a'r olaf, a'r Un byw; bûm farw, ac wele, yr wyf yn fyw byth bythoedd, ac y mae gennyf allweddau Marwolaeth a Hades.'

Mewn byd o ofnau a newid fe gafwyd geiriau o anogaeth gan Gwilym Jeffs, Jonathan Thomas a Rhys Llwyd ar sail geiriau Iesu i Ioan a'i eglwys ynghanol byd ansicr y ganrif gyntaf. Cafwyd oedfaon wedyn yn y nos yn cael eu harwain gyda mawl gan gerddorion o eglwysi hyd a lled Cymru; tynnwyd sylw at yr hyn oedd Duw yn ei wneud yng Nghymru dan arweiniad Lois Franks a Gwynedd Jones, Anna Huws a Deb Stammers; ac oedfa deuluol a llawer o hwyl yng nghwmni Cameron Jones o Goleg y Bala a'r ieuenctid sy'n rhan o fudiad Cenhadon i Gymru.

Ond nid oedfaon a chyfarfodydd mawr yn unig oedd yno: mae Llanw yn ŵyl i Gristnogion Cymraeg ond mae pwyslais mawr ar gynnwys y rhai sy'n dysgu Cymraeg a'r rhai sy'n ddi-Gymraeg. Roedd cyfieithu yn digwydd ym mhob sesiwn ac roedd grŵp WhatsApp i ddysgwyr a oedd yn rhoi geirfa a fyddai'n cael ei defnyddio ym mhob sesiwn. Mae Llanw yn darparu sesiynau yn arbennig i blant o bob oed. Roedd hefyd sesiynau i blant ag anghenion arbennig a llawer mwy!

Holwyd rhai am eu hargraffiadau o'r ŵyl – rhai wedi bod yno ers yn gynnar yn ei hanes, fel Maggie Hughes o Gaernarfon; eraill yn newydd i'r ŵyl, fel Faith Owen a'i gŵr, Keiff, a Ceinwen Thomas wedi tyfu i fyny yn ei mynychu o flwyddyn i flwyddyn.

Gallwch gael blas o'r hyn ddigwyddodd yno wrth ddilyn y ddolen hon i safle Facebook Gŵyl Llanw, lle darlledwyd y prif anerchiadau'n fyw: www.facebook/llanw

**Huw Powell-Davies**



# Profiad



Roedd popeth am ein Llanw cyntaf erioed yn hollol wych: y lleoliad, y tywydd, y bwyd, yr oedfaon, y pregethu, y gweithgareddau ... ond, wrth gwrs, y peth gorau am Llanw ydy'r bobl. Treulio amser efo chi, teulu gorjys Duw, oedd y peth mwya' gwerthfawr a chofiadwy i ni yr wythnos yma. 'Dan ni mor, mor ddiolchgar am y teimlad gwirioneddol o gysylltiad, undod, amynedd a didwylledd sydd rhyngom ni, ac er nad oedden ni wedi bod o'r blaen, roedden ni'n teimlo'n gartrefol iawn yno.

**Faith Owen, Pen-y-cae, Rhos**




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*